MATER O FYW A MARW

Ffilmiau, gwasanaeth, gwersi a gwybodaeth ar **y gosb eithaf**, i ysbrydoli disgyblion 14 oed a hŷn.

Amnest Rhyngwladol
DIOGELU DYNOLRYW

CYNNWYS

LLYFRYN

Rhagair 3
Defnyddio'r pecyn 4
Beth yw hawliau dynol? 5
Ymgyrch yn erbyn y gosb eithaf 6
Addysgu materion dadleuol 8
Gwasanaeth Bywyd am fywyd 10
Gwers 1 Cyflwyniad i'r gosb eithaf 12
Gwers 2 Trafodaeth y Cenhedloedd Unedig ar y gosb eithaf 17
Prosiect Cymryd Camau Gweithredu 20
Grwpiau Ieuenctid Amnest Rhyngwladol 22
Mwy o ffyrdd i gymryd rhan 24

POCED

Gwybodaeth
Sgript gwasanaeth
Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol – fersiwn gryno
Mae codi arian yn hwyl
Map poster y gosb eithaf ledled y byd

Ffurflenni
Cerdyn Adborth
TeachRights – ffurflen gofrestru
Ymunwch â grwpiau ieuenctid Amnest
Ffurflen archebu adnoddau

DVD

Adnoddau
Sgript gwasanaeth a PowerPoint
Gwers 1 Cyflwyniad i'r gosb eithaf
Gwers 2 Trafodaeth y Cenhedloedd Unedig ar y gosb eithaf
Cysylltiadau â'r cwricwlwm
Addysgu materion dadleuol
Cynlluniau sesiynau 1 i 5 y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu

Ffilmiau
Over to You – grwpiau ieuenctid Amnest wrth eu gwaith
Jeremy Irons – ei farn am y gosb eithaf
Y Chwaer Helen Prejean – ei rhan hi yn y gosb eithaf
Bullet – carcharor a achubwyd gan ddeisebau
Signatures – grym llofnod

Gwybodaeth
Ynglŷn â grwpiau ieuenctid Amnest – cyflwyniad ar gyfer pobl ifanc
Cyflwyniad i Amnest - PowerPoint

CYDNABYDDIAETH

Mae'r pecyn addysgu hwn yn tynnu ar arfer da a rennir gan athrawon a gweithredwyr ac ymgyrchwyr Amnest Rhyngwladol. Rydym eisiau sôn yn benodol am aelodau grwpiau ieuenctid Amnest Rhyngwladol a'r Grŵp Ymgynghorol Ieuenctid, Jeremy Hayward a luniodd yr adran Addysgu Materion Dadleuol, ac Ahmed Karaoud a Mai Abu Moghli o Swyddfa Amnest Dwyrain Canol/Gogledd Affrica yn Beirut.

Cafodd y pecyn ei ysgrifennu wrth ymgynghori a chydweithio â nifer o bobl gan gynnwys athrawon a phobl ifanc. Rydym eisiau diolch i Lucy Stanford, Maeve McKeown, Jacob Williams, Nazanin Shirani, Leilee Shirani, Laura Alldred, Ellie Ridley, Hayley Nunley, Victoria Sheldon, Rosie Ball, Eithne Kerrigan ac athrawon ac aelodau cyrff anllywodraethol o'r rhanbarth Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.

Rydym eisiau diolch yn arbennig i Troy Davis a'i deulu, yn enwedig Martina a De'Jaun Davis-Correia, DemocracyNow.org, a Mirza Tahir Hussain a'i deulu, Richard Hughes a Jeremy Irons am rannu eu profiadau gyda ni.

RHOI'R GORAU I'R GOSB EITHAF

RHOI'R GORAU I'R GOSB EITHAF
Amnest Rhyngwladol
DIOGELU DYNOLRYW

RHAGAIR
MATER O FYW A MARW

’Mewn byd sy’n llawn ansicrwydd mae hawliau dynol yn ffin a dynnir yn eglur. Mae pob unigolyn sy’n wynebu’r gosb eithaf, beth bynnag maent wedi’u cyhuddo, yn fod dynol o hyd. Er cymaint rydym yn eu difrïo, rydym wedi’n cythruddo gan eu gweithrediadau, rydym eisiau dial, bodau dynol ydynt o hyd. Efallai eu bod wedi lladd a phoenydio pobl. Maent wedi croesi’r ffin. A ydym wir eisiau ymuno â nhw?’

Jeremy Irons

Eleni mae ein pecyn ysgol ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd yn archwilio’r materion o gwmpas defnyddio’r gosb eithaf, un o ymgyrchoedd hynaf a mwyaf sefydledig Amnest.

Mae cynhyrchu’r pecyn hwn yn amserol. Am y tro cyntaf ers i Amnest Rhyngwladol ddechrau cadw cofnodion, ni chafodd neb ei ddienyddio yn 2009 yn Ewrop gyfan, ac er bod 58 o wledydd y byd yn cadw’r gosb eithaf, dim ond ychydig a’i defnyddiodd.

Ym mis Hydref bydd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn dechrau trafod cynnig sy’n galw am foratoriwm (ataliad) byd-eang ar ddefnyddio’r gosb eithaf fel cam cyntaf tuag at ei diddymu. Mae Diwrnod y Byd yn Erbyn y Gosb Eithaf hefyd yn cael ei gynnal ar 10 Hydref. Dyma’r cyfnodau rydym yn eich annog i ddefnyddio’r pecyn ac archwilio’r materion.

Mae Amnest Rhyngwladol yn gwrthwynebu defnyddio’r gosb eithaf ym mhob achos ac ar gyfer pob trosedd, boed i rywun fod yn ddieuog neu’n euog. Ond rydym eisiau i’n hadnoddau addysgol gefnogi pobl ifanc i ddatblygu’r wybodaeth, y sgiliau a’r gwerthoedd er mwyn ffurfio eu barn eu hunain ar faterion hawliau dynol. Mae rhan o’r pecyn hwn yn cynnig arweiniad i addysgwyr sydd eisiau cefnogi pobl ifanc sydd wedi’u hysgogi i gymryd camau gweithredu ar fater hawliau dynol.

Datblygwyd y pecyn hwn gyda thîm Dwyrain Canol a Gogledd Affrica Amnest, a leolir yn Beirut. Bydd pecyn Arabeg ar gael a byddwn yn gweithio gydag athrawon yn y rhanbarth i gyflwyno hawliau dynol yn ehangach i’w disgyblion.

Mae llawer mwy o ffyrdd i chi a’ch disgyblion gymryd rhan gydag Amnest. Cewch chi ymuno â mwy na 600 o ysgolion eraill ledled y DU a sefydlu grŵp ieuenctid Amnest Rhyngwladol. Cewch hefyd ymuno â TeachRights a derbyn adnoddau addysgu am ddim drwy ein taflen newyddion electronig reolaidd. Ewch i boced y ffolder i wybod sut i wneud hynny, neu ewch i **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath** - a pheidiwch ag anghofio cwblhau’r cerdyn adborth neu’r ffurflen ar-lein a dweud wrthym a ddefnyddioch y pecyn hwn.

DEFNYDDIO'R PECYN

I BWY MAE'R PECYN HWN?

Athrawon disgyblion 14-16 oed yn y pynciau canlynol:
- Dinasyddiaeth Cyfnod Allweddol 4 (Lloegr) – democratiaeth a chyfiawnder; rolau a gweithrediad cyfraith sifil a throseddol a'r system gyfiawnder.
- Dysgu ar gyfer Bywyd a Gwaith, Dinasyddiaeth Leol a Byd-eang (Gogledd Iwerddon)
- Maes Astudiaethau Cymdeithasol y Cwricwlwm ar gyfer Rhagoriaeth, neu brosiectau trawsgwricwlaidd o dan Iechyd a Lles, a Dinasyddiaeth Fyd-eang (Yr Alban)
- ABCh ac Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang (Cymru)

Hefyd mae'n ddefnyddiol ar gyfer:
- Athrawon AG, Saesneg a Drama, Cymdeithaseg, Hanes, Daearyddiaeth, Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Modern
- Prosiectau trawsgwricwlaidd rhyngddisgyblaethol ar themâu Dinasyddiaeth
- Grwpiau ieuenctid Amnest Rhyngwladol
- Siaradwyr ysgolion Amnest Rhyngwladol

SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

- Gellir defnyddio'r **gwasanaeth** ar gyfer gwasanaethau'r flwyddyn gyfan neu mewn gwasanaethau dosbarth, a gellid hefyd ei addasu i ffurfio rhan o brosiect addysgu cyfoedion ar gyfer plant iau. Gellir hefyd ddarparu cysylltiad trawsgwricwlaidd, rhwng Dinasyddiaeth (Fyd-eang), AG, Saesneg a Drama.
- Mae'r **gwersi ar y Gosb Eithaf** yn addas ar gyfer ymagweddau trawsgwricwlaidd neu ryngddisgyblaethol at Ddinasyddiaeth (Fyd-eang) yn cysylltu ag AG. Bwriedir i'r ddwy wers gael eu haddysgu'n olynol, mewn cyfuniad â ffilmiau'r astudiaethau achos, ond gellir eu haddysgu hefyd fel gwersi ar wahân.
- Gellir defnyddio'r sesiynau **Prosiect Cymryd Camau Gweithredu**, mewn gwersi Dinasyddiaeth (Fyd-eang) heb arholiadau, neu i gefnogi'r asesiad a reolir yng nghwrs llawn neu fyr TGAU Dinasyddiaeth yn Lloegr. Efallai bydd grwpiau ieuenctid Amnest a grwpiau allgyrsiol eraill yn gweld y gwersi hyn yn ddefnyddiol wrth gynllunio camau ymgyrchu.
- Defnyddio'r **DVD** – gellir gwylio'r ffilmiau ar chwaraewr DVD neu ar gyfrifiadur. Gellir gweld ac argraffu'r cynlluniau gwersi, taflenni gwaith a'r PowerPoints ar gyfrifiadur.

Cynlluniwyd y pecyn adnoddau i fod yn gytbwys ac i hwyluso trafodaeth agored o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf. Fodd bynnag, sylwer bod Amnest Rhyngwladol yn erbyn defnyddio'r gosb eithaf mewn unrhyw amgylchiadau.

Ar y dde: Disgyblion yn trafod gan ddefnyddio pecyn adnoddau Amnest.

BETH SYDD AR Y DVD?

Dylid defnyddio'r llyfryn hwn ochr yn ochr â'r DVD. Yn ogystal â chynlluniau gwersi a'r taflenni gwaith, PowerPoints a darnau ffilm sydd ynghlwm, mae'r DVD yn cynnwys:
- Cyflwyniad i Amnest – PowerPoint
- Ynglŷn â Grwpiau Ieuenctid Amnest – cyflwyniad ar gyfer pobl ifanc
- Addysgu Materion Dadleuol – canllawiau cyffredinol
- Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Clipiau ffilm (yn Saesneg yn unig)
- Jeremy Irons yn rhoi ei farn ar y gosb eithaf (3 munud 23 eiliad)
- Y Chwaer Helen Prejean, gweithredwraig adnabyddus yn erbyn y gosb eithaf ac awdur *Dead Man Walking*, yn siarad am ei gwaith ynglŷn â'r gosb eithaf (12 munud)
- *Bullet*, yn cynnwys carcharor a achubwyd gan ddeisebau (1 munud 33 eiliad)
- *Signatures*, animeiddiad sy'n amlygu grym llofnod (2 funud 19 eiliad)

PRYD I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

Gellir ei ddefnyddio ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ysgol, ond adegau arbennig o briodol yn 2010 yw:
- ar gyfer y **gwasanaeth** – ym mis Hydref, pan fydd y Cenhedloedd Unedig yn dechrau trafod defnydd byd-eang y gosb eithaf.
- ar gyfer y **gwersi ar y Gosb Eithaf** a'r **Prosiect Cymryd Camau Gweithredu** – Diwrnod y Byd yn Erbyn y Gosb Eithaf ar 10 Hydref, yn y cyfnod cyn Diwrnod Hawliau Dynol ar 10 Rhagfyr ac yn ystod Wythnos Diogelu Dynolryw Amnest Rhyngwladol rhwng 16 a 22 Hydref.

BETH YW HAWLIAU DYNOL?

'Mae Hawliau Dynol yn rhywbeth na all neb ei gymryd oddi wrthych.'

René Cassin, un o brif ddrafftwyr Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

Ystyr hawliau dynol yw'r hyn mae pob bod dynol ei angen er mwyn byw bywyd urddasol a chyflawn a chymryd rhan yn llawn yn y gymdeithas. Mae gennych hawl i'r rhain - maen nhw gyda chi am eich bod yn ddynol.

Mae hawliau dynol yn:

- **gyffredinol** – maent yn gymwys i bawb yn gyfartal â'i gilydd;
- **anaralladwy** – ni ellir eu tynnu i ffwrdd o bobl;
- **anwahanadwy** – maent i gyd yn gysylltiedig. Gall methu ag amddiffyn un hawl arwain at gamddefnydd hawliau eraill, ac yn yr un modd gall gymryd camau i gyflawni un hawl arwain at gyflawni hawliau eraill.

Mae set o werthoedd cyffredin sydd wedi bod yn amlwg mewn cymdeithasau, gwareiddiadau a chrefyddau drwy gydol hanes wrth wraidd hawliau dynol. Mae'r gwerthoedd hyn yn cynnwys tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth. Mae'n bwysig cydnabod bod menywod, dynion a phlant yn profi gwahanol gamddefnydd o hawliau dynol ac yn cael eu heffeithio ganddynt mewn gwahanol ffyrdd.

Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

Gwnaeth erchyllterau a wnaed gan wladwriaethau yn ystod Yr Ail Ryfel Byd, ac yn arbennig camdriniaeth erchyll yr Holocost, arwain i'r Cenhedloedd Unedig a oedd newydd ei ffurfio sefydlu Comisiwn Hawliau Dynol ym 1947. Daeth grŵp o arweinwyr llywodraethau ynghyd, wedi'u cadeirio gan Eleanor Roosevelt, i ddrafftio dogfen newydd mewn ymgais i atal y fath gamdriniaeth hawliau dynol rhag digwydd eto. Dylanwadwyd ar weledigaeth yr arweinwyr hyn nid yn unig gan ddigwyddiadau yn Ewrop; roedd digwyddiadau'r byd megis llofruddio Gandhi yn India a dechrau apartheid yn Ne Affrica hefyd yn flaenllaw yn eu meddyliau hwy.

Cafodd y ddogfen a ddaeth o ganlyniad i hynny, Y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) ei mabwysiadu gan wledydd y Cenhedloedd Unedig ym 1948 ac erys fel y fframwaith enwocaf a phwysicaf oll o hawliau dynol. Mae'r rhaglith yn cydnabod hawl i hawliau ar gyfer yr holl ddynolryw, ac yn gosod y nod o gyfrannu at ryddid, cyfiawnder a heddwch yn y byd. Diffinnir hawliau dynol yn y 30 o erthyglau.

Nid yw'r UDHR yn orfodol yn gyfreithiol ar gyfer gwledydd, felly ni ellir ei orfodi mewn llys – cafodd ei greu fel datganiad o amcanion i'w dilyn gan lywodraethau. Fodd bynnag, mae wedi ffurfio sail i ystod o gytundebau sy'n orfodol yn gyfreithiol, megis y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, a'r Confensiwn yn erbyn Arteithio. Mae grwpiau rhanbarthol o wledydd a gwladwriaethau unigol wedi ymgorffori'r hawliau dynol hyn i'w cytundebau a'u cyfreithiau eu hunain, megis y Cofensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol y DU.

Daw taflen wybodaeth gyda fersiwn gryno o'r UDHR gyda'r pecyn hwn (gweler poced y ffolder yn y cefn; i gael y testun llawn gweler **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**). Gallwch hefyd archebu copïau am ddim o *Fy Mhasport Hawliau* sy'n gosod erthyglau'r UDHR (gweler y ffurflen archebu).

Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol

Mae hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn berthnasol i'r amgylchiadau sydd eu hangen i fodloni anghenion dynol sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawliau i addysg, tai digonol, bwyd, dŵr, y safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd, yr hawl i weithio a hawliau yn y gwaith, yn ogystal â hawliau diwylliannol lleiafrifoedd a phobl gynhenid. Cynhwysir yr hawliau hyn yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR). Er bod y rhwymedigaeth bennaf i sicrhau parch, amddiffyn a chyflawni hawliau dynol yn aros gyda'r wladwriaeth y mae pobl yn byw ynddi, mae gan bob gwladwriaeth hefyd rwymedigaethau i barchu, amddiffyn a chyflawni hawliau dynol drwy gymorth rhyngwladol a chydweithredu.

Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol

Mae hawliau sifil a gwleidyddol yn hawliau megis yr hawl i gydraddoldeb o flaen y gyfraith, treial teg, rhyddid mynegiant, symudiad, cynulliad a chymdeithasu. Rhoddir mynegiant cyfreithiol gorfodol iddynt mewn nifer o offerynnau hawliau dynol rhyngwladol, gan gynnwys y Cyfamod Rhynglwadol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol. (ICCPR).

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn amlinellu ystod eang o hawliau ar gyfer plant o dan 18 oed. Agorwyd yr UNCRC i'w lofnodi ym 1989 a chafodd ei ddilysu gan bob aelod-wladwriaeth y Cenhedloedd Unedig heblaw am yr Unol Daleithiau a Somalia. Dilysodd llywodraeth y DU yr UNCRC ym 1991.

Mae'r cenhedloedd sy'n dilysu'r confensiwn rhyngwladol hwn wedi'u rhwymo iddo gan gyfraith ryngwladol. Monitrir cydymffurfiaeth gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n cynnwys aelodau o wledydd o gwmpas y byd.

YMGYRCH YN ERBYN Y GOSB EITHAF

Mae Amnest Rhyngwladol yn erbyn y gosb eithaf oherwydd ein bod yn credu ei bod yn torri dau hawl dynol sylfaenol: yr hawl i fywyd a'r hawl i beidio â chael eich arteithio neu fod yn destun cosb greulon, annynol neu ddiraddiol.

Ein rhesymau eilaidd yw fel a ganlyn:

- Nid yw'r gosb eithaf yn rhwystro troseddau'n well na chosbau eraill, fel y dengys astudiaethau gan y Cenhedloedd Unedig (UN) ac eraill.
- Os gwneir camgymeriad ni ellir ei gywiro. Yn ôl astudiaeth ym 1987, condemniwyd 350 o bobl ddieuog i farwolaeth yn UDA rhwng 1900 a 1985, a dienyddiwyd 23 ohonynt.
- Fe'i defnyddir yn aml yn erbyn rhai grwpiau'n fwy nag eraill, megis pobl o gefndiroedd tlawd neu o hiliau penodol, neu'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Bu gwrthwynebu'r gosb eithaf yng nghyd-destun carcharorion gwleidyddol yn rhan o'n gweledigaeth o'r cychwyn cyntaf. Dros amser, mae ein gwrthwynebiad i'r gosb eithaf wedi ehangu i gynnwys unrhyw un â dedfryd marwolaeth.

Ym 1966 mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR). Mae erthygl 6 yn datgan 'ni chaiff neb ei amddifadu o'i fywyd yn fympwyol' ac ni ddylid rhoi'r gosb eithaf i'r rhai sydd o dan 18 adeg y drosedd.

Ym 1971 gofynnom i'r Cenhedloedd Unedig ac i Gyngor Ewrop i wneud pob ymdrech posibl er mwyn diddymu'r gosb eithaf yn fyd-eang. Chwe blynedd yn ddiweddarach, gwnaethom alw Cynhadledd Ryngwladol ar y Gosb Eithaf yn Stockholm. Ym 1989 trefnom ymgyrch fyd-eang yn erbyn y gosb eithaf.

Yn 2000, ynghyd â Chymuned Sant'Egidio a'r Chwaer Helen Prejean o'r prosiect Moratoriwm 2000, cyflwynom fwy na thair miliwn o lofnodion i Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig Kofi Annan a oedd yn cefnogi moratoriwm (rhewi) ar y gosb eithaf gyda'r bwriad o'i diddymu ledled y byd. Cafodd moratoriwm y Cenhedloedd Unedig ar y gosb eithaf ei gadarnhau ddwywaith yn y Cynulliad Cyffredinol; yn gyntaf yn 2007, ac wedyn yn 2008. Nid yw'r penderfyniadau hyn yn gyfreithiol rwymol ond maent yn berswadiol yn foesol. Gobaith Amnest yw y bydd y penderfyniadau hyn – y cyntaf o'u math – yn parhau i fod yn ddylanwad mawr o ran perswadio gwledydd i roi'r gorau i'w defnydd o'r gosb eithaf. Caiff penderfyniad tebyg ei drafod yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Hydref 2010.

Rydym yn parhau i weithio dros ddiddymiad llwyr drwy fonitro datblygiadau, casglu gwybodaeth yn fyd-eang a threfnu rhaglen gyfredol o waith yn erbyn y gosb eithaf, mewn cydweithrediad â mudiadau hawliau dynol a llywodraethau eraill.

Mae un o'n hymgyrchoedd cyfredol yn canolbwyntio ar atal dienyddio troseddwyr iau - unrhyw un o dan 18 oed pan gyflawnwyd y drosedd. Mae dienyddio plant yn waharddedig gan y gyfraith ryngwladol ac ers mis Mai 2005 - pan benderfynodd Goruchaf Lys yr UD fod gwneud hyn yn anghyfansoddiadol - mae holl wladwriaethau'r byd yn cytuno ar hyn. Ond ers 2000 mae Amnest Rhyngwladol wedi dogfennu 62 achos o ddienyddio pobl iau ar draws wyth gwlad.

Y NIFEROEDD

Ers mis Rhagfyr 2009, mae mwy na dwy ran o dair o wledydd y byd wedi diddymu'r gosb eithaf mewn cyfraith neu'n ymarferol. Rydym yn gwybod bod deunaw gwlad wedi cyflawni dienyddiadau yn 2009. Cafodd o leiaf 714 o bobl eu dienyddio ond nid yw'r cyfanswm hwn yn cynnwys China lle mae ystadegau'r gosb eithaf yn gyfrinach i'r wladwriaeth. Cafodd o leiaf 2,001 o bobl eu dedfrydu i farwolaeth mewn 56 o wledydd.

Termau allweddol

- **Diddymwyr ar gyfer pob trosedd:** gwledydd nad yw eu cyfreithiau'n defnyddio'r gosb eithaf ar gyfer unrhyw droseddau.
- **Diddymwyr ar gyfer troseddau arferol yn unig:** gwledydd mae eu cyfreithiau'n defnyddio'r gosb eithaf ar gyfer troseddau eithriadol megis troseddau o dan gyfraith filwrol neu droseddau a gyflawnwyd mewn amgylchiadau eithriadol ee troseddau adeg rhyfel.
- **Diddymwyr yn ymarferol:** gwledydd y gellir ystyried eu bod wedi sefydlu arfer o beidio â defnyddio'r gosb eithaf yn ystod y 10 mlynedd diwethaf ond sy'n ei chadw yn eu cyfreithiau ar gyfer troseddau arferol megis llofruddiaeth.
- **Cadwyr:** gwledydd a thiriogaethau sy'n cadw'r gosb eithaf ar gyfer troseddau arferol, megis llofruddiaeth a delio cyffuriau.

	Gwledydd
Diddymwyr ar gyfer pob trosedd	**95**
Diddymwyr ar gyfer troseddau arferol yn unig	**9**
Diddymwyr yn ymarferol	**35**
Cadwyr	**58**
Cyfanswm	197

Edrychwch ar ein hadran gwestiynau cyffredin i gael mwy o wybodaeth am y gosb eithaf ar **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**, a darllenwch ein Hadroddiad ar y Gosb Eithaf 2009 ar **www.amnesty.org.uk/deathpenalty**



‘Ar ôl ychydig o flynyddoedd mae eich coesau’n dechrau dirywio. Ni fu Troy’n cerdded ar laswellt ers 15 mlynedd.’

Richard Hughes, drymiwr gyda Keane, a ymwelodd â Troy Davis, sydd ar res yr angau ers mwy na 18 mlynedd

© Richard Hughes

ADDYSGU MATERION DADLEUOL

Mae'r rhan fwyaf o addysgu'n ymwneud â meysydd a ystyrir i fod yn 'hysbys' gyda chwestiynau caeedig. Mae addysgu hefyd yn ymdrin â meysydd lle mae llawer o wahanol farnau, mae'n ysgogi emosiynau cymhleth ac yn arwain at drafodaethau anodd. Maent yn ddadleuol ac maent angen ystyriaeth arbennig.

Addysgu am y gosb eithaf

Mae hawliau dynol yn egwyddorion craidd, moesol ac yn offerynnau cyfreithiol yn y rhan fwyaf o gymdeithasau. Yn waelodol i hawliau dynol mae egwyddorion cydraddoldeb, urddas a pharch am yr unigolyn yr ystyrir yn gyffredinol nad ydynt yn ddadleuol. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar hawliau dynol yn ddadleuol a chânt eu trafod yn rhydd. Mae barnau'n wahanol, fodd bynnag, ar sut y dylid cynnal hawliau dynol, pryd mae'n dderbyniol cyfyngu arnynt a sut i gydbwyso hawliau sy'n gwrthdaro.

Efallai bydd gwladwriaethau sy'n ddiddymwyr yn honni bod y gosb eithaf yn mynd yn groes i'r hawl i fywyd a'r hawl i beidio â chael eich arteithio, neu'ch gwneud yn destun triniaeth greulon, annynol a diraddiol, fel yr amlinellir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) a chyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol dilynol.[1] Mae'r hawl i beidio â chael eich arteithio'n hawl absoliwt ac ni ddylid byth tynnu oddi wrtho. Yn ôl y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR), gellir cyfyngu ar yr hawl i fyw o dan rai amgylchiadau a ddiffinnir yn arbennig. Efallai bydd gwladwriaethau sy'n gadwyr yn anghytuno bod y gosb eithaf yn golygu arteithio, a dadlau ei fod yn rhesymol i gymryd bywyd rhywun os ydynt wedi cyflawni rhai troseddau penodol. Dyma lle mae'r ddadl yn codi o ran hawliau dynol. Mae nifer o ddadleuon moesol, cyfreithiol a chrefyddol o gwmpas y gosb eithaf. Gweler Gwersi 1 a 2 i gael mwy o fanylion.

Mae defnyddio'r gosb eithaf ar bobl o dan 18 oed yn anghyfreithlon[2] a gellir ei addysgu fel nad yw'n ddadleuol ei fod yn anghywir. Dylai'r athro/athrawes deimlo eu bod yn gallu herio neu wrthwynebu unrhyw un sy'n dadlau o'i blaid.

Mae Amnest Rhyngwladol yn gwrthwynebu'r gosb eithaf mewn pob amgylchiad. Fodd bynnag rydym yn cydnabod bod y mater yn ddadleuol a dylid ei addysgu felly. Mae'r pecyn hwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd ac y caiff ystod o wahanol ddadleuon eu cyflwyno.

1 Mae'r hawl i fyw (Erthygl 3) yn Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (ICCPR). Mae'r hawl i beidio â chael eich arteithio (Erthygl 5) yn yr ICCPR a cheir manylion pellach yn y Cyfamod yn erbyn Arteithio. Am fwy o wybodaeth ar gyfraith hawliau dynol rhyngwladol, gw. http://www2.ohchr.org a http://www.hrweb.org/legal/undocs.html

2 Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (Erthygl 6)

Nod y deunyddiau

Mae'r deunyddiau yn y pecyn hwn yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion archwilio materion allweddol ynglŷn â'r gosb eithaf a'u galluogi i archwilio eu gwerthoedd wrth iddynt wrando ar farnau pobl eraill a'u parchu. Mae pwyslais ar drafod hefyd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau megis holi, meddwl yn feirniadol, ymresymu a thrafod.

Dulliau addysgu

Mae'r pecyn hwn yn defnyddio nifer o ddulliau i archwilio'r gosb eithaf. Mae astudiaethau achos yn codi ymwybyddiaeth o'r mater ac yn annog disgyblion i feddwl am y canlyniadau go iawn. Mae drama'n gynwysedig er mwyn caniatáu i ddisgyblion feddwl am rai o'r materion mewn lleoliad diogel, pell. Cynigir rhywfaint o ganllawiau cyffredinol ar gyfer defnyddio'r deunyddiau isod:

- **Rheolau Sylfaenol**
  Mae gosod rheolau sylfaenol yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth y gellir ei rheoli. Gellir defnyddio egwyddorion hawliau dynol fel fframwaith ar gyfer y rheolau sylfaenol, ee dylid annog disgyblion i gydnabod yr hawl i ryddid mynegiant sydd gan *bob* aelod o'r dosbarth, ac ni ddylai'r disgyblion wahaniaethu, drwy gyfeirio at unigolion neu grwpiau o bobl fel rhai sy'n addas ar gyfer y gosb eithaf, hyd yn oed fel jôc.

- **Barn yr athro**
  Nid yw mater y gosb eithaf wedi'i gyfyngu'n benodol gan dadogaeth wleidyddol; mae hyn yn gwneud mynegi barn bersonol yn fater llai sensitif. Fodd bynnag, efallai bydd hyn yn fwy priodol ar ddiwedd yr addysgu er mwyn osgoi trafodaeth dueddol. Gweler y canllawiau cyffredinol ar Addysgu Materion Dadleuol ar y maes hwn ar y DVD.

- **Trafodaeth ffug y Cenhedloedd Unedig**
  Yng ngwers 2, trafodaeth ffug gan y Cenhedloedd Unedig, rhoddir ystod o rolau i'r disgyblion sydd â barnau penodol i'w hamddiffyn, nid o reidrwydd eu barnau eu hunain. Cynghorir i'r disgyblion beidio â cheisio defnyddio acenion gwahanol wrth ymgymryd â'u rolau – gall wrthdynnu o gynnwys yr araith a pheri tramgwydd. Pan fydd y sesiwn chwarae rôl wedi gorffen, gadewch i'r disgyblion drafod/fod yn feirniadol o'u rolau a'u credau. Bydd 'dod allan o rôl' fel hyn yn helpu'r disgyblion i ddatgysylltu o farnau'r cymeriad yn y sesiwn chwarae rôl.

- **Defnyddio deunyddiau pwerus**
  Cynlluniwyd y deunyddiau i fod yn addas ar gyfer

disgyblion 14 oed ac yn hŷn. Gall disgyblion gael eu heffeithio'n emosiynol gan astudiaethau achos bywyd go iawn, yn enwedig wrth ddefnyddio naratif ysgogol megis fideo. Efallai byddwch yn ei weld yn adeiladol i rannu'r dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach. Bydd hyn yn galluogi disgyblion llai hyderus i fyfyrio, rhannu syniadau ac ail-gydbwyso mewn amgylchedd mwy diogel.

- **Tueddiad**
  Yn y DU mae fframwaith deddfwriaethol sy'n gofyn i athrawon geisio sicrhau cydbwysedd wrth addysgu materion dadleuol. Mae mynd ar drywydd cydbwysedd yn egwyddor ddefnyddiol i'ch arwain, hyd yn oed os yw cydbwysedd perffaith yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl ei gyflawni.

  Nod y deunyddiau yn y pecyn yw adlewyrchu ystod o gredau ar fater y gosb eithaf. Cafodd safbwyntiau'r gwledydd eu hymchwilio a gwnaed ymdrech i adlewyrchu'r rhain yn deg. Mae'r deunyddiau'n ceisio cyflwyno safbwyntiau nad ydynt yn rhai gorllewinol ar y pwnc. Dylai'r hwylusydd warchod yn erbyn ffyrdd y gallai'r dysgu fynd yn ormodol o anghytbwys - efallai trwy ystyried aseinio safbwyntiau gwledydd i'r disgyblion, neu drwy annog disgyblion a/neu wledydd â gwahanol farnau i gael eu clywed.

- **Cred Grefyddol**
  Mae nifer o'r gwladwriaethau sy'n defnyddio'r gosb eithaf yn wledydd lle mai Islam yw crefydd y mwyafrif. Mae ysgolheigion Islamaidd yn aml yn defnyddio dehongliad ysgrythurol i gefnogi cadw'r gosb eithaf er bod maddeuant yn thema allweddol yn y Qur'an ar yr un pryd. Dylai'r athro geisio sicrhau nad yw trafodaeth y disgyblion yn mynd yn drafodaeth ddeubegwn rhwng safbwyntiau Islamaidd a rhai nad ydynt yn Islamaidd, oherwydd bod nifer o wledydd sydd â phoblogaethau Mwslimaidd lleiafrifol ac sy'n cadw'r gosb eithaf (UDA, China), yn ogystal â gwledydd sydd â phoblogaethau Mwslimaidd mwyafrifol sydd heb y gosb eithaf (Twrci, Albania), neu sy'n cadw'r gosb eithaf ond nid ydynt yn ei gorfodi bellach (Algeria).

- **Barn/sensitifrwydd y disgyblion**
  Yng nghyd-destun y DU, mae'r gosb eithaf yn annhebygol o fod yn fater sydd wedi effeithio ar deuluoedd y disgyblion yn bersonol. Fodd bynnag, efallai bydd dosbarthiadau'n cynnwys disgyblion sy'n ffoaduriaid a disgyblion sydd â chysylltiadau teuluol â gwledydd sydd â'r gosb eithaf. Os felly, bydd gofyn am sensitifrwydd.

'Trwy ymchwilio i'r gosb eithaf, mae disgyblion…yn ymchwilio i ystyr hawliau dynol ac mae ganddynt fforwm er mwyn trafod arteithio. Ai ymarfer arteithio meddyliol neu gorfforol yw'r gosb eithaf?'

Y Chwaer Helen Prejean, sy'n ymddangos mewn clip ffilm yn y pecyn hwn

GWASANAETH BYWYD AM FYWYD

YNGLŶN Â'R GWASANAETH HWN

Nod y gwasanaeth hwn yw codi ymwybyddiaeth ynghylch materion troseddwyr ifanc honedig ar res yr angau. Mae'n amlygu'r materion a'r emosiynau mae merch ifanc o'r enw Mariam yn eu hwynebu ar res yr angau wrth iddi aros i gael ei dienyddio.

Mae'r gwasanaeth ar ffurf drama. Mae'r ddrama a'r cymeriadau'n ffug, ond maent wedi'u seilio ar dystiolaeth a phrofiadau pobl go iawn, a'r sefyllfa bresennol mewn gwledydd megis Iran a Saudi Arabia.

Ysgrifennwyd y gwasanaeth ar gyfer disgyblion 14 oed ac yn hŷn, i'w berfformio fel rhan o weithgaredd codi ymwybyddiaeth ar gyfer addysgu cyfoedion. Gellid ei berfformio i ddisgyblion iau, fel sy'n briodol. Ynghyd â'r gwasanaeth ceir sioe sleidiau PowerPoint sydd ar y DVD.

Gellir defnyddio'r gwersi yn y pecyn adnoddau hwn fel dilyniant i'r gwasanaeth.

AMSER

Gwasanaeth: 10 munud
Paratoi: 30-90 munud

YR HYN SYDD EI ANGEN ARNOCH

- Sioe sleidiau PowerPoint (ar y DVD)
- Sgript y gwasanaeth (ym mhoced y llyfryn hwn ac ar y DVD)
- Saith o 'actorion'

NODIADAU I ATHRAWON

Troseddwyr ifanc

Mae'r gyfraith ryngwladol yn gwahardd dienyddio troseddwyr ifanc - pobl sy'n iau na 18 oed adeg y drosedd. Fodd bynnag, dienyddiwyd o leiaf saith o droseddwyr ifanc yn 2009: dau ohonynt yn Saudi Arabia a phump yn Iran. Yn ogystal â hyn, arhosodd troseddwyr ifanc ar res yr angau yn Iran, Saudi Arabia, Sudan, Nigeria, Uganda, Myanmar (Burma) ac Yemen*.

*Yn Yemen oherwydd anghydfodau ynglŷn ag oedran y troseddwyr.

Y gosb eithaf ac Islam

Er bod dienyddio troseddwyr ifanc yn digwydd yng ngwledydd o wahanol grefyddau, rydym wedi cynnwys yr esboniad hwn oherwydd bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wlad Fwslimaidd.

Mae maddeuant a heddwch yn thema amlwg yn y Qur'an, testun crefyddol canolog Islam. Yn y pen draw credir bod cosb dragwyddol rhywun yn nwylo Duw, ond bod lle ar gyfer cosbi yn y bywyd hwn hefyd.

Yn ôl dehongliadau cyffredin cyfraith Islamaidd, gellir cosbi'r ddau fath hwn o drosedd drwy angau:

- **Llofruddiaeth fwriadol** Yn yr achosion hyn rhoddir y grym i deulu'r dioddefwr i fynnu'r gosb eithaf neu faddau'r cyflawnwr a derbyn 'arian am waed' (iawndal) am eu colled.
- **Fasad fil-ardh ('lledaenu drygioni drwy'r wlad')** Gall hyn olygu llawer o wahanol bethau, ond cynhwysir y troseddau canlynol fel arfer: bradwriaeth/apostasi (lle mae rhywun yn gadael y ffydd ac yn troi yn ei herbyn); terfysgaeth, lladrad o unrhyw fath; trais; godineb, ymddygiad cyfunrywiol.

Caiff pob achos ei ystyried yn unigol ac mae gan y llys hyblygrwydd i orchymyn cosbau llai llym. Cysylltir gwledydd Islamaidd sy'n ymarfer cyfraith Shari'a llym â defnydd y gosb eithaf fel cosb ar gyfer yr amrywiaeth fwyaf o droseddau.

Mae cyfraith Shari'a ('ffordd' neu 'lwybr') yn deillio o'r Qur'an, dysgeidiaeth ac esiampl y proffwyd Muhammad, a dyfarniadau ysgolheigion Islamaidd.

Mae rhai gwledydd Mwslimaidd nad ydynt yn defnyddio'r gosb eithaf. Er enghraifft mae Twrci wedi'i diddymu ac ystyrir Morocco, Algeria a Tunisia i fod yn ddiddymwyr yn ymarferol.

Mae sector cynyddol o ddiddymwyr sy'n dadlau rhai o'r canlynol:

- Mae maddeuant a heddwch yn themâu craidd y Qur'an.
- Mae gweithrediadau gwladwriaethau sy'n dienyddio'r cyhuddedig ac yn gwrthod mynediad at gyfreithiwr yn groes i'r cysyniad Islamaidd o gyfiawnder.
- Mae arbenigwyr mewn cyfraith Islamaidd yn anghytuno ar y dehongliadau o destunau sanctaidd a'r cyd-destun y dylid eu cymhwyso ynddo.

Geirfa

Arian am waed: lawndal a delir gan droseddwr (llofrudd fel arfer) i deulu neu dylwyth y dioddefwr. Mae'r cyfanswm yn amrywio o wlad i wlad.
Qisas: Dial; hawl etifeddion dioddefwr llofruddiaeth i fynnu bod y llofrudd yn cael ei ddienyddio.
Diyya: lawndal a delir i etifeddion dioddefwr. Yn Arabeg yr ystyr yw arian am waed a phridwerth.

Nodiadau Achos

Rydym yn sôn am achos **Hafez Ibrahim** yn sgript y gwasanaeth. Cafodd ei euogfarnu o lofruddiaeth a ddigwyddodd yn Yemen pan oedd yn 16 oed, a chafodd ddedfryd marwolaeth yn 2003. Yn 2007, cytunodd teulu'r dioddefwr i faddau iddo a chael diyya o 25 miliwn o riyals yr Yemen (tua £80,000) fel iawndal. I gael mwy am ei stori, ewch i **www.amnesty.org/lifeanddeath**

BETH I'W WNEUD

Cyflwynwch y gwasanaeth i'r dosbarth, a gofynnwch am wirfoddolwyr i ddarllen y sgript. Wedyn gofynnwch i'r disgyblion benderfynu ar rolau, neu dyrannwch nhw eich hun os oes angen. Dosbarthwch gopïau o'r sgript. Dylech chi ymarfer gyda'ch gilydd, gan ymarfer gyda'r delweddau PowerPoint. Gofynnwch i'r disgyblion beidio â cheisio defnyddio acenion gwahanol wrth ymgymryd â'u rolau, gall wrthdynnu o gynnwys yr araith ac efallai bydd yn peri tramgwydd.

Y rolau sydd eu hangen

Perfformwyr (rolau siarad): chwech o actorion ar gyfer y rolau a enwir, ac un arall i fod yn adroddwr, neu gellir rhannu'r adrodd rhwng nifer o ddisgyblion. Bydd nodiadau cefndirol y cymeriadau ar y sgript yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu rolau.
Perfformwyr (rolau heb siarad): gall unrhyw nifer o ddisgyblion gymryd rhan i greu delweddau llonydd neu feimiau byr i ddarlunio'r golygfeydd a ddisgrifir.
Technegwyr: un technegydd yn defnyddio'r PowerPoint,

Hafez Ibrahim. Gweler y nodiadau achos, yn y blwch llwyd ar y chwith.

un technegydd ar gyfer golau a sain os oes angen.
Cyfarwyddwr: gallai dau ddisgybl gymryd rôl y cyfarwyddwr.
Blaen y tŷ: rhwng tri a chwech o ddisgyblion i hebrwng pobl i'w seddau.

Llwyfannu

Gellir chwarae'r ddrama hon fel:

- **sesiwn chwarae rôl**, lle mae'r actorion yn rhyngweithio ac yn cerdded o gwmpas y llwyfan. Meddyliwch am gael drama gysgodion dawel y tu ôl i sgrin wrth i'r lladd gael ei ddisgrifio.
- **darllen**, gyda'r actorion yn aros yn eu hunfan yn wynebu'r gynulleidfa ac yn darllen o'u sgriptiau.

Rhowch wrthrychau i'ch disgyblion fel gall aelodau'r gynulleidfa adnabod pa gymeriadau maent yn eu chwarae. Bydd effeithiau sain yn ychwanegu at y ddrama, ee cerddoriaeth Iranaidd, gwydr yn torri, y gwynt yn udo, rhaff yn gwichian, seiren car heddlu.

GWEITHGAREDDAU YMESTYNNOL

- Gwahoddwch y disgyblion i benderfynu ar ffawd Mariam. Perfformiwch y gwasanaeth unwaith, wedyn dechreuwch eto, y tro hwn yn caniatáu i'r gynulleidfa stopio'r ddrama ar wahanol bwyntiau i drafod, awgrymu canlyniad arall neu newid lle gyda'r actor a pherfformio'r canlyniad newydd eu hunain.
- Gofynnwch gwestiynau dilynol, ee beth maent yn ei feddwl am:
  - Y ffaith bod Mariam a Yousra allan ar eu pennau eu hunain?
  - Gorfodir carcharorion i lofnodi cyfaddefiadau?
  - Mae troseddwyr ifanc yn cael eu dienyddio?
  - Beth ddylai rôl sefydliadau ymgyrchu megis Amnest Rhyngwladol fod?

GWERS 1
CYFLWYNIAD I'R GOSB EITHAF

YNGLŶN Â'R WERS HON

Caiff y disgyblion eu cyflwyno i ddefnydd y gosb eithaf. Byddant yn ystyried achosion dau ddyn a ddedfrydwyd i farwolaeth: Mirza Tahir Hussain ym Mhacistan a Troy Davis yn UDA (gweler y nodiadau achos manwl ar dudalen 14). Bydd disgyblion yn penderfynu ar ba hawliau yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) sydd ynghlwm wrth yr achosion hyn, ac yn gwerthuso'r barnau yn y ffilmiau yn feirniadol; maent yn cynnwys Martina Davis-Correia yn siarad am ei hymgyrch i ryddhau ei brawd Troy.

AMSER

1 wers/1 awr
(neu 2 wers i ganiatáu mwy o drafod)

AMCANION DYSGU

Mae'r wers hon yn galluogi disgyblion i:
- werthuso'n feirniadol y dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf;
- mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau personol;
- adnabod ac enwi amrywiaeth o hawliau dynol o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR);
- dysgu am sefydliad rhyngwladol sy'n gweithio ar hawliau dynol.

SGILIAU

Meddwl, holi a gwerthuso'n feirniadol; trafod a chyfiawnhau barnau a gwerthoedd; cyfrannu at drafodaeth y grŵp a chyflwyno dadleuon argyhoeddiadol.

CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM

Edrychwch ar y DVD.

DYSGU BLAENOROL

Mae'r wers hon yn cymryd bod gennych ryw wybodaeth am ddefnydd y gosb eithaf trwy wersi Saesneg, AG, Hanes neu Ddinasyddiaeth.

YR HYN SYDD EI ANGEN ARNOCH

Ar gael ar y DVD oni bai y dywedir yn wahanol.
Ar gyfer pob disgybl:
- Papur pleidleisio (pleidlais gyntaf ac ail bleidlais)
- Taflen waith cwis ar y gosb eithaf
- Taflen wybodaeth am fod o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf
- Nodiadau achos rhai a anfonwyd i res yr angau (hefyd ar dudalen 14)
- Taflen waith astudiaeth achos
- Fersiwn gryno'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (hefyd ym mhoced y pecyn hwn)

Ar gyfer yr athro/athrawes:
- Atebion y cwis ar y gosb eithaf
- Taflen i'r athro ar yr astudiaeth achos
- Nodiadau achos rhai a anfonwyd i res yr angau (hefyd ar dudalen 14)
- Erthygl 'Mae gennyf ewythr ar res yr angau' (ar gyfer cefndir; gellir hefyd ei roi i'r disgyblion)
- PowerPoint: Cyflwyniad i'r gosb eithaf, Gwers 1

Mae'r ffilmiau canlynol yn Saesneg yn unig ac maent yn parhau am naw munud.
- Ffilm: Mirza Tahir Hussain (ceir fersiwn hirach o'r ffilm hon ar **www.teachers.tv/videos/secondary-citizenship-letters-to-death-row**)
- Ffilm: Troy Davis

‘Mae’r sticer ar y bympar yn dweud “Pam rydym yn lladd pobl sy’n lladd pobl i ddangos bod lladd yn anghywir?” Ac rwyf yn cytuno â hynny.’

Richard Hughes, drymiwr Keane



© Jesse Quin

DOLENNI DEFNYDDIOL

- **www.amnesty.org.uk/education**
  Detholiad o gynlluniau gwersi ac adnoddau addysgol ar y gosb eithaf.
- **www.amnesty.org.uk** a **www.amnesty.org**
  Yr adroddiadau a’r achosion ymgyrchu diweddaraf ynglŷn â’r gosb eithaf.
- **www.worldcoalition.org**
  Gwybodaeth ar Glymblaid y Byd yn Erbyn y Gosb Eithaf.
- **YouTube**
  Colin Firth, cyflwyniad Amnest ar y gosb eithaf.
- **Cynllun gwers Amnest UDA**
  www.amnesty.org.uk/lifeanddeath
  Adnodd addysgol ar bob agwedd ar y gosb eithaf, gyda saith gwers a thaflenni gwaith.

FFILMIAU AM Y GOSB EITHAF

The Exonerated (gwnaed ar gyfer y teledu)
Hanesion gwir chwech o bobl a anfonwyd i res yr angau ond a gafodd eu difeio’n ddiweddarach, a’u rhyddhau.

Dead Man Walking (15)
Stori wir Y Chwaer Helen Prejean sy’n sefydlu perthynas â charcharor ar res yr angau.

Let Him Have It (15)
Sut cafodd Derek Bentley ei grogi am lofruddio yn y DU o dan amgylchiadau dadleuol.

To Kill a Mockingbird (PG)
Mae cyfreithiwr yn amddiffyn dyn croenddu rhag cyhuddiad o drais nad oedd yn ei haeddu.

12 Angry Men (U)
Mae rheithgor mewn prawf llofruddiaeth yn penderfynu ar ffawd y diffynnydd.

The Life of David Gale (15)
Cyhuddir ymgyrchydd sydd yn erbyn y gosb eithaf o lofruddio gweithredydd arall a chaiff ei anfon i res yr angau.

Uchod: Richard Hughes y tu allan i’r Tŷ Gwyn, UDA, Medi 2009
Chwith: Brawd Mirza Tahir Hussain yn ymgyrchu y tu allan i Uchel Gomisiwn Pacistan, gyda chefnogaeth Amnest Rhyngwladol mewn cais i atal Mirza rhag cael ei ddienyddio.

GWERS 1
NODIADAU ACHOS RHAI A ANFONWYD I RES YR ANGAU

MIRZA TAHIR HUSSAIN

ROEDD MIRZA TAHIR HUSSAIN YN 18 OED PAN GAFODD EI ARESTIO A'I DDEDFRYDU I FARWOLAETH AM LOFRUDDIO GYRRWR TACSI YM MHACISTAN

Beth ddigwyddodd?

Ym mis Rhagfyr 1988, hedfanodd Mirza, 18 oed, dinesydd deuol Prydeinig a Phacistanaidd o Leeds, i Bacistan i ymweld â pherthnasau. Cafodd ei arestio am lofruddio gyrrwr tacsi a dynnodd ddryll allan, yn ôl pob sôn, a cheisio ymosod arno. Yn y frwydr a ddilynodd, ffrwydrodd y dryll. Honodd Mirza y cafodd y gyrrwr ei ladd mewn hunanamddiffyniad. Cafodd ei ddedfrydu i farwolaeth gan y llys sesiwn yn Islamabad ym mis Medi 1989.

Y broses gyfreithiol

Ym 1992 gorchmynnodd Uchel Lys aildreial, ond ym 1994 dedfrydodd llys arall ef i garchar am oes. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym Mai 1996, cafodd Mirza ei aildreialu a rhyddfarnodd yr Uchel Lys ef o lofruddiaeth. Cyn iddo gael ei ryddhau, fodd bynnag, cafodd ei achos ei gyfeirio at y Llys Shari'a Ffederal, sydd ag awdurdodaeth dros achosion o ladrata pen ffordd. Ym Mai 1998 dedfrydwyd y llys Shari'a ef i farwolaeth o ddwy bleidlais i un, a gwrthododd apeliadau dilynol. Ym Mai 2006 dosbarthodd yr Arlywydd Musharraf y cyntaf o dri ataliad dienyddio. Ar 16 Tachwedd 2006 defnyddiodd yr Arlywydd ei bwerau o dan y cyfansoddiad er mwyn cymudo'r ddedfryd o farwolaeth i ddedfryd am oes. O dan gyfraith Pacistan roedd hyn yn gyfystyr â chyfnod o 14 blynedd. Gan fod Mirza eisoes wedi bod yn y carchar ers 18 o flynyddoedd, cafodd ei ryddhau a dychwelodd adref i Loegr. Erbyn hynny, roedd yn 36 oed.

Yr ymgyrch

Cafodd ei deulu gefnogaeth ASau, ASEau a charfannau dwyn pwysau o bob cwr o'r byd gan gynnwys Treialon Teg Tramor ac Amnest Rhyngwladol, gyda'r aelodau'n apelio am faddeuant gan yr Arlywydd. Rhoddodd brawd Mirza, Amjad Hussain, gyfweliadau di-rif i'r cyfryngau wrth iddo ymgyrchu am ei ryddhau, a digwyddodd gwrthdystiadau a phrotestiadau mewn nifer o wledydd yn erbyn penderfyniad llys y Shari'a. Yn y DU, ymyrrodd Y Tywysog Charles a chredir bod y Prif Weinidog ar y pryd, Tony Blair, wedi codi'r achos gyda'r Arlywydd Musharraf.

Yn ei eiriau ei hun

'Rydw i'n gwerthfawrogi'r holl ymdrechion ar fy rhan i, yn enwedig rhai'r cyfryngau ac Amnest Rhyngwladol. Arweiniodd yr ymdrech at fy mhardwn yn y pen draw. Ar ôl 18 mlynedd gallwn i ddod adref o'r diwedd.'

'Treuliais 12 mlynedd o'm bywyd ar res yr angau a ches i bedwar dyddiad ar wahân ar gyfer fy nienyddio. Roeddwn i'n ffodus, llwyddais i oroesi rhes yr angau ym Mhacistan. Beth am y rhai na fydd yn gwneud hynny, o bosibl?... Dylai'r Arlywydd Musharraf ddangos y dewrder gwleidyddol i rewi pob dienyddiad ym Mhacistan.'

Mirza Tahir Hussain

TROY DAVIS

ERS IDDO FOD YN 19 OED, BU TROY DAVIS AR RES YR ANGAU YN GEORGIA, UDA, AM LOFRUDDIAETH MAE E'N MYNNU EI FOD HEB EI CHYFLAWNI

Beth ddigwyddodd?

Yn ystod oriau mân 19 Awst 1989, cychwynnodd ymladd mewn maes parcio yn Savannah, Georgia - cafodd dyn digartref, Larry Young, ei guro. Rhedodd swyddog heddlu, Mark Allen MacPhail, nad oedd ar ddyletswydd, at y digwyddiad i helpu a saethwyd ef yn farw. Cyfaddefodd Sylvester 'Red' Coles y bu'n ymladd gyda Larry Young ond honnodd fod Troy Davis wedi saethu swyddog MacPhail. Ym 1991 cafodd Troy ei gyhuddo o lofruddiaeth, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth gorfforol a oedd yn ei gysylltu â'r drosedd ac mae saith allan o'r naw tyst, y cafodd Troy ei euogfarnu ar sail eu tystiolaeth, ers hynny wedi datgyffesu neu newid eu tystiolaeth. Yn y treial, cyfaddefodd Troy ei fod yn bresennol yn y lle ond mae e bob amser wedi mynnu ei fod yn ddieuog.

Y broses gyfreithiol

Mae Troy wedi wynebu tri dyddiad dienyddio dros y blynyddoedd diwethaf - roedd o fewn dwy awr o gael ei ddienyddio ar un achlysur. Yn Awst 2009 digwyddodd rhywbeth annisgwyl - enillodd yr hawl i wrandawiad tystiolaethol newydd - cyfle i brofi ei fod yn ddieuog - mae i fod i ddigwydd ar 23 Mehefin 2010.

NODER: Ar adeg yr ysgrifennu (Mai 2010) roedd Troy Davis ar res yr angau o hyd yn aros am ei wrandawiad tystiolaethol newydd. Gorchmynnwyd gan y Llys Goruchaf 'i dderbyn tystiolaeth a darganfod ffeithiau a yw tystiolaeth nad oedd ar gael adeg y treial yn pennu dieuogrwydd'. Bydd y gwrandawiad yn digwydd mewn llys rhanbarthol ffederal yn Savannah, UDA. Mae'n genhadaeth canfod ffeithiau, nid treial newydd. Cymerir bod Troy yn euog ac arno fe mae'r baich o gynhyrchu ffeithiau sy'n dangos yn glir ei fod yn ddieuog. Os bydd yn gwneud hyn, gallai'r barnwr roi 'rhyddhad' i Troy ar seiliau 'dieuogrwydd gwirioneddol', neu gallai hyn ddod yn uniongyrchol o'r Llys Goruchaf. Os na fydd yn gwneud hyn, gallai'r barnwr glirio'r ffordd er mwyn gosod dyddiad arall ar gyfer ei ddienyddio. I gael y newyddion diweddaraf ar ei achos, ewch i **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**

Yr ymgyrch

Mae chwaer Troy, Martina Davis-Correia, wedi brwydro i ryddhau ei brawd ers dros 18 mlynedd. Martina yw cydlynydd Amnest Rhyngwladol ar gyfer diddymu cosb

Uchod: Troy Davis, 26 Medi 2009, yn y carchar.

eithaf talaith Georgia. Bu Amnest yn ymgyrchu dros Troy ers cyhoeddi adroddiad ar ei achos yn 2007. Yn 2009 ymwelodd dirprwyaeth o Amnest Rhyngwladol DU, a oedd yn cynnwys Richard Hughes o'r band Keane, â'r UDA a Troy Davis er mwyn cefnogi'r ymgyrch i'w ryddhau, ac ymwelodd Martina a'i mab De'Jaun ag Amnest DU i godi ymwybyddiaeth am ei achos.

Yn ei eiriau ei hun

'Hoffwn ddiolch i chi i gyd o waelod fy nghalon oherwydd bod fy nheulu a finnau wir angen mwy o bobl allan yn brwydro drosom a gweithredu fel llais a dangos cefnogaeth. Ac rydych i gyd wir wedi agor llygaid pobl ym mhob cwr o'r byd am anghyfiawnder, nid yn unig i mi, ond am system gyfreithiol yr Unol Daleithiau. Ac mae'n anrhydedd eich cael i gyd – eich cyfeillgarwch, eich cefnogaeth, eich llythyrau a'ch gwaith fel gweithredwyr, mae wir yn golygu llawer'.

Er mwyn trafod defnydd y gosb eithaf ar gyfer pobl sy'n euog neu fel cyfiawnder ar gyfer teulu'r dioddefwr, edrychwch ar achos Billy Moore. Treuliodd bron 17 o flynyddoedd ar res yr angau yn Georgia, UDA, am lofruddiaeth y cyfaddefodd iddi, ond cafodd ei ddedfryd ei gymudo o farwolaeth i oes ar ôl i grŵp o deulu a ffrindiau'r dioddefwr gwyno yn erbyn ei ddienyddio. Flwyddyn yn ddiweddarach cafodd barôl. Ers hynny mae wedi treulio'i ryddid yn benderfynol o ddangos nad yw'r gosb eithaf yn datrys troseddau.

I gael mwy o fanylion:
www.amnesty.org.uk/lifeanddeath

GWERS 1
CYFLWYNIAD I'R GOSB EITHAF

CYNLLUN GWERS

1 PLEIDLAIS A CHWIS AR Y GOSB EITHAF

Amser: 10 munud
Sleidiau PowerPoint: 1 i 5

Dosbarthwch y papurau pleidleisio a gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r adran ar gyfer y bleidlais gyntaf. Esboniwch fod ticio 'Yn erbyn y gosb eithaf' yn golygu ar gyfer pob trosedd (gweler tudalen 6). Gofynnwch i'r disgyblion bostio eu papur pleidleisio i mewn i'r bocs pleidleisio. Cyfrifwch y pleidleisiau ac arddangos y canlyniad.

Dosbarthwch y *daflen waith ar gwis y gosb eithaf*, naill ai'n unigol neu i grwpiau. Rhowch bum munud i'r disgyblion ateb y cwestiynau. Ewch drwy'r atebion cywir a rhowch amser ar gyfer trafodaeth fer i ymdrin ag ymatebion y disgyblion. Eglurwch yr amcanion dysgu.

2 YSTYRIED HAWLIAU

Amser: 25 munud
Sleidiau PowerPoint: 6 i 10

Cyflwynwch Amnest Rhyngwladol a'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (gweler y nodiadau cefndirol ar dudalennau 5 a 6). Rhowch allan gopi o *Fersiwn gryno'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r Daflen waith ar Astudiaethau Achos* i bob disgybl. Gofynnwch iddynt ddarllen yr erthyglau yn y UDHR.

Cyflwynwch Mirza Tahir Hussain a Troy Davis, a gafodd eu carcharu'n annheg a'u rhoi ar res yr angau. Caiff y disgyblion hefyd ddarllen cyfweliad nai Troy, *Mae gennyf ewythr ar res yr angau*. Dosbarthwch gopïau o'r *Nodiadau achos am y rhai a anfonwyd i res yr angau*. Efallai byddwch yn dymuno dangos y ffilmiau o Mirza Tahir Hussain a Troy Davis ar y DVD ond nodwch eu bod ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r ffilmiau'n parhau am naw munud.

Gofynnwch i'r disgyblion lenwi eu *Taflen waith astudiaeth achos* gan ganiatáu amser am drafodaeth wedyn.

Trafodwch eu hymatebion gan ddefnyddio *Taflen waith yr athro/athrawes ar yr astudiaeth achos* er mwyn ysgogi trafodaeth yn y dosbarth. Atgoffwch y disgyblion y gallant ymarfer eu hawl i ryddid barn a mynegiant, ac y gallant ymarfer yr hawl hwn boed iddynt deimlo bod y gosb eithaf yn gywir neu'n anghywir (gweler Addysgu Materion Dadleuol (tudalen 8).

Gofynnwch gwestiynau myfyrio allweddol:

- Ydych chi'n meddwl bod Amnest Rhyngwladol wedi cyflwyno golwg ddiduedd ar y gosb eithaf yn y nodiadau achos?
- Sut rydych chi'n meddwl bod teuluoedd Mirza a Troy yn teimlo?
- Pa gamau gweithredu, os unrhyw beth, rydych chi'n meddwl y dylid eu cymryd dros y carcharorion ar res yr angau?
- A yw euogrwydd/dieuogrwydd rhywun yn effeithio ar eich barn am y gosb eithaf?

3 O BLAID NEU YN ERBYN?

Amser: 20 munud
Sleidiau PowerPoint: 11

Rhannwch y dosbarth yn ei hanner, wedyn rhannwch bob hanner yn grwpiau llai (mewn dosbarth o 30 o ddisgyblion, tua chwe grŵp, er enghraifft).

Dyrannwch un hanner y dosbarth O BLAID y gosb eithaf a'r hanner arall YN ERBYN y gosb eithaf. Dosbarthwch adran berthnasol y daflen *O blaid ac yn erbyn y gosb eithaf* fel sy'n briodol. Efallai bydd y disgyblion yn cael eu hunain mewn grŵp nad ydynt yn cytuno â'u barn. Esboniwch, at ddibenion yr ymarfer hwn, dylent geisio cydymdeimlo â barn wrthgyferbyniol.

Rhowch bum munud i'r grwpiau ddarllen a myfyrio'n feirniadol ar y dadleuon. Dylent benderfynu pa ddadleuon sydd gryfaf, gan nodi rhesymau paham.

Gofynnwch i bob grŵp ddewis rhedwr i adrodd eu dewisiadau o fewn eu grŵp O BLAID ac YN ERBYN eu hunain, hy mae rhedwr grŵp un yn symud at grŵp dau, mae rhedwr grŵp dau yn symud i grŵp tri; mae rhedwr grŵp tri yn symud i grŵp un.

Wedyn dylai'r rhedwyr ar gyfer y grwpiau O BLAID ddewis dwy ddadl i'w cyflwyno i'r dosbarth. Dylai rhedwyr YN ERBYN wneud yr un peth.

Nawr gofynnwch i'r rhedwyr O BLAID ac YN ERBYN gyflwyno eu dwy ddadl i'r dosbarth. Efallai byddant yn dewis darllen yr holl ddadleuon sydd ganddynt ar goedd, ond amlygwch pam eu bod wedi dewis y ddwy benodol hyn.

Wedi clywed dwy ochr y ddadl, gofynnwch i'r disgyblion gwblhau adran *Fy marnau personol* eu taflen waith.

4 CYFARFOD Y GRŴP CYFAN

Amser: 5 munud
Sleidiau PowerPoint: 11 i 13

Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio eto gan ddefnyddio eu papur pleidleisiau ar gyfer yr ail bleidlais. Cyfrwch y canlyniadau a'u cofnodi ar y bwrdd.

Os yw'r canlyniadau'n wahanol, trafodwch.

Ewch trwy sleid y pwyntiau dysgu allweddol a gofynnwch i'r disgyblion 'raddio' beth maent wedi ei ddysgu ar adran *Amcanion Dysgu* eu taflen waith.

Os ydych yn symud ymlaen at Wers 2, esboniwch y byddant yn cymryd rhan mewn trafodaeth ffug y Cenhedloedd Unedig ar ddiddymu'r gosb eithaf yn fyd-eang.

GWAITH YMESTYN/GWAITH CARTREF

- Chwiliwch yn y geiriadur am eiriau allweddol ar gyfer Gwers 2, ee moratoriwm, Cenhedloedd Unedig, Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, penderfynu, diddymu, cynnig, ymwrthod, llysgennad.
- Er mwyn cymryd camau gweithredu dros garcharorion ar res yr angau, gweler **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**

GWERS 2
TRAFODAETH Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR Y GOSB EITHAF

YNGLŶN Â'R WERS HON

Bydd disgyblion yn cynnal trafodaeth ffug y Cenhedloedd Unedig ar ddefnydd byd-eang y gosb eithaf. Mae'n seiliedig yn fras ar drafodaeth a gynlluniwyd ar y gosb eithaf sydd i ddechrau yng Nghynulliad Cenedlaethol y Cenhedloedd Unedig ym mis Hydref 2010 (gweler y cefndir isod).

Caiff pob disgybl ei benodi'n llysgennad aelod-wladwriaeth a gofynnir iddo ystyried a ddylid cyfyngu neu hyd yn oed ddiddymu'r gosb eithaf ledled y byd.

Rhoddir nodiadau briffio i bob llysgennad, yn amlinellu eu safbwynt yn y drafodaeth. Mae'r nodiadau briffio hyn yn ffug, er bod pob safbwynt a awgrymir yn adlewyrchu'n fras gefndir hanesyddol y wlad ac yn cynnwys dysgeidiaeth o brif draddodiad crefyddol a safbwynt gwleidyddol y wlad honno. Drwy'r wers hon gall disgyblion archwilio dylanwad dysgeidiaeth grefyddol ar wneud penderfyniadau gwleidyddol yn ogystal ag ystyried ymhellach ddadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf a archwiliwyd yng Ngwers 1.

Cefndir i'r drafodaeth Cenhedloedd Unedig hon

Ar 18 Rhagfyr 2007 mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig gynnig 62/149 yn gofyn am foratoriwm (rhewi) byd-eang ar ddienyddio gyda'r nod o'i ddiddymu. Mabwysiadwyd y cynnig gan fwyafrif llethol o 104 o aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig o blaid, 54 yn erbyn a 29 o ymataliadau. Dyma'r tro cyntaf i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig gymeradwyo moratoriwm ar ddefnydd y gosb eithaf. Yn y drafodaeth honno, cymerodd yr Eidal a Malaysia y prif rolau, yn unol â'n cynllun gwers.

Mabwysiadwyd ail gynnig ar y gosb eithaf gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 18 Rhagfyr 2008 ar roi ar waith gynnig UNGA 62/149 2007. Roedd cefnogaeth wedi cynyddu: pleidleisiodd 106 o wladwriaethau o blaid, 46 yn erbyn ac ymatalodd 34. Nid yw'r cynigion hyn yn gyfreithiol rwymol ond mae ganddynt rym moesol. Mae'n gam tuag at ddiddymu'r gosb eithaf yn fyd-eang.

Caiff cynnig tebyg ei ystyried yn 65ain Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar ddiwedd 2010. Mae'r wers hon yn seiliedig yn fras ar y drafodaeth hon a gynllunnir.

AMSER

1-2 o wersi/1-2 awr
(neu hyd at dair awr er mwyn cynnwys mwy o fanylion)

AMCANION DYSGU

Mae'r wers hon yn annog disgyblion i:
- ddeall proses trafodaeth y Cenhedloedd Unedig ar fater byd-eang;
- cyflwyno dadleuon am safbwynt penodol ar y gosb eithaf, gan gynnwys rhai gwrthgyferbyniol a pherswadio eraill i gefnogi'r safbwynt;
- gwerthuso safbwyntiau gwahanol ar y gosb eithaf yn feirniadol;
- ystyried sut i gymryd camau gweithredu gwybodus ar y mater.

SGILIAU

Trafodaeth, dadl, holi, myfyrio; dehongli a dadansoddi ffynonellau'n feirniadol; cyflwyno dadl argyhoeddiadol nad yw bob tro yn cyd-fynd â'ch barn chi; eiriolaeth a chynrychiolaeth.

CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM

Edrychwch ar y DVD.

DYSGU BLAENOROL

Mae'r wers hon yn disgwyl bod gennych wybodaeth o'r gosb eithaf, gan gynnwys dadleuon o blaid ac yn erbyn ei defnyddio, ac am nodau a dulliau gweithio'r Cenhedloedd Unedig.

YR HYN SYDD EI ANGEN ARNOCH

Ar gael ar y DVD oni bai y nodir fel arall.

Ar gyfer pob disgybl:
- Cerdyn rôl llysgennad, sy'n cynnwys enw a baner gwlad, ynghyd â set o nodiadau briffio i'r llysgennad (plygwch yn eu hanner a'u harddangos ar y ddesg)
- Cynnig yr Eidal (un ar gyfer pob disgybl)
- Taflen wybodaeth ar ddadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf
- Geirfa
- Fersiwn gryno'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (hefyd ym mhoced y ffolder)

Ar gyfer yr athro/athrawes
- Baner y Cenhedloedd Unedig
- Nodiadau briffio'r Cadeirydd.

GWERS 2
TRAFODAETH Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR Y GOSB EITHAF

DOLENNI DEFNYDDIOL

- **www.amnesty.org.uk/education**
  detholiad o gynlluniau gwersi ac adnoddau addysgol ar y gosb eithaf.
- **www.amnesty.org.uk** a **www.amnesty.org**
  Yr adroddiadau a'r achosion ymgyrchu diweddaraf ar y gosb eithaf.
- **www.unesco.org.uk/unmatters**
  Pecyn addysgu UNA-UK ar y Cenhedloedd Unedig.

SUT I BARATOI

Yn ogystal â pharatoi'r adnoddau dylech hefyd nodi dadleuwyr hyderus a threfnwyr da yn y dosbarth ar gyfer y rolau allweddol yn y gweithgaredd hwn:

- Y llysgennad Eidalaidd, a fydd yn cyflwyno'r cynnig ar ran yr Undeb Ewropeaidd a noddwyr eraill.
- Y llysgennad o Falaysia, a fydd yn arwain y gwrthwynebiad i'r cynnig.
- Gwrthwynebwyr allweddol i'r gosb eithaf, gan gynnwys De Affrica, Canada a Guiné-Bissau.
- Cefnogwyr allweddol i'r gosb eithaf, gan gynnwys China, UD, Sudan a Cuba.

Mae 30 o gardiau rôl i lysgenhadon. Os oes gennych lai na 30 o ddisgyblion yn eich dosbarth, ceisiwch greu cydbwysedd rhwng llysgenhadon a fydd, fwy na thebyg, o blaid y cynnig, y rhai fydd yn erbyn a'r rhai sydd heb benderfynu. Mae rhai cardiau rolau'n fwy cymhleth nag eraill (gweler yr allwedd isod). Aseiniwch yn unol â hynny.

Safbwyntiau tebygol gwledydd yn y drafodaeth o ran y gosb eithaf:

Gwledydd sydd yn debygol o fod yn erbyn dienyddio ac o blaid cynnig yr Eidal	Gwledydd sydd yn debygol o fod heb benderfynu	Gwledydd sydd yn debygol o fod o blaid dienyddio ac yn erbyn cynnig yr Eidal
Yr Eidal (ar gyfer yr UE) ▲	Algeria ★	Botswana ★
Angola ▲	El Salvador ★	China ★
Awstralia ▲	Ethiopia ★	Cuba ★
Azerbaijan ▲	India ★	Yr Aifft ▲
Bhutan ▲	Israel ★	Indonesia ★
Brasil ★	Lebanon ★	Jamaica ▲
Bwlgaria ▲	Malawi ▲	Malaysia ▲
Canada ▲		Singapore ▲
Guiné-Bissau ▲		Sudan ▲
México ★		UDA ★
Nepal ▲		
Gwlad Pwyl ★		
De Affrica ★		

Allwedd:
★ = Lefel anhawster uwch
▲ = Lefel anhawster isel/canolig

CYNLLUN GWERS

1 PARATOI AR GYFER Y DRAFODAETH

Amser: 10-15 munud

Cyflwynwch yr amcanion dysgu fel sy'n briodol gyda'r dosbarth. Darllenwch y *Rhestr Termau* fel dosbarth ac esboniwch a thrafodwch eiriau allweddol (ee Cenhedloedd Unedig, cynnig, diddymu, moratoriwm, cawcws) ar gyfer trafodaeth y Cenhedloedd Unedig.

Dywedwch wrth y dosbarth y byddant yn ymddwyn fel llysgenhadon i'r Cenhedloedd Unedig ac esboniwch eu bod yn mynd i drafod cynnig gan y Eidal sy'n galw am foratoriwm ar ddefnydd y gosb eithaf. Dosbarthwch gopïau o *Gynnig yr Eidal* a'i ddarllen fel dosbarth. Esboniwch y byddwch chi'n cadeirio'r drafodaeth.

Aseiniwch bob plentyn i wlad a rhowch allan gardiau rolau'r llysgenhadon priodol, sydd â nodiadau briffio cyfrinachol. Dylent blygu eu cardiau yn eu hanner fel bod enw a baner eu gwlad yn wynebu allan, ac mae'r briffiad cyfrinachol i'r llysgennad yn eu hwynebu. Esboniwch fod bod yn gyfarwydd â'u gwlad yn rhan bwysig o'r gweithgaredd; dylai'r disgyblion ddarllen eu briffiad ond cadw'r cynnwys yn gyfrinachol.

Dywedwch wrth y disgyblion fod y nodiadau briffio'n cynnwys dwy ran:

- Gwybodaeth gefndirol am y wlad maent yn ei chynrychioli.
- Eu safbwynt yn y drafodaeth, sy'n rhoi dadleuon posibl i'r disgyblion eu defnyddio - gan gynnwys dadleuon crefyddol, gwleidyddol, ariannol a moesol - a thactegau pleidleisio awgrymedig.

Eglurwch fod y briffiadau'n hollol ddychmygol, ond wedi'u seilio'n fras ar hanes eu gwlad, ei phrif grefydd, a'i hanes o ran y gosb eithaf. Esboniwch, wrth iddynt roi eu dadleuon, dylai'r disgyblion wneud hynny 'mewn rôl' (gweler Addysgu Materion Dadleuol ar dudalen 8) yn argyhoeddiadol - hyd yn oed os nad ydynt yn rhannu'r safbwynt dan sylw yn bersonol. Esboniwch y gall llysgenhadon, yn enwedig y rhai sydd heb benderfynu, newid eu safbwynt o fewn rheswm ar ôl gwrando ar ddwy ochr y ddadl. Efallai bydd rhai gwledydd hyd yn oed yn ceisio rhoi pwysau arnynt, eu bygwth neu eu llwgrwobrwyo er mwyn eu gorfodi i newid eu pleidlais.

2 Y CAWCWS

Amser: 25 munud

Esboniwch fod y cawcws yn cyfeirio at sesiwn trafod anffurfiol lle mae trafodaethau answyddogol yn digwydd ac mae llysgenhadon yn paratoi ar gyfer y ddadl. Dyma'r amser fel arfer pan fydd llysgenhadon yn llunio eu strategaeth ac yn penderfynu pwy sy'n mynd i gyflwyno'r gwahanol ddadleuon dros eu hochr nhw. Er mwyn cael unrhyw obaith o ennill y ddadl, mae'n rhaid i lysgenhadon lobïo llysgenhadon eraill hefyd, yn enwedig y rhai sydd heb benderfynu, i geisio eu perswadio i ymuno â'u hochr nhw.

Dosbarthwch y daflen wybodaeth *O blaid ac yn erbyn y gosb eithaf*, sy'n crynhoi'r prif ddadleuon. Bydd y disgyblion hefyd yn gweld dadleuon wedi'u hawgrymu ar eu nodiadau briffio.

Dechreuwch y cawcws.

- Dylai pob llysgennad sydd o blaid y cynnig gyfarfod â llysgennad yr Eidal i lunio eu prif ddadleuon cryfaf yn erbyn y gosb eithaf. Gofynnwch iddynt benderfynu ar bwy ddylai gyflwyno pa ddadl.
- Dylai pob llysgennad sydd yn erbyn y cynnig gyfarfod â llysgennad Malaysia i benderfynu ar eu prif ddadleuon cryfaf o blaid cadw'r gosb eithaf. Gofynnwch iddynt benderfynu ar bwy ddylai gyflwyno pa ddadl.
- Dylai llysgenhadon sydd heb benderfynu gyfarfod â'i gilydd i drafod pa ffordd y byddant yn pleidleisio.

Wedyn dylai'r llysgenhadon eraill fynd at lysgenhadon sydd heb benderfynu er mwyn ceisio eu perswadio i bleidleisio o blaid/yn erbyn y cynnig.

3 PARATOI'R AREITHIAU

Amser: 10 munud

Gofynnwch i'ch disgyblion baratoi eu hareithiau ar gyfer y drafodaeth. Dylent ddefnyddio eu nodiadau briffio a dylai eu haraith barhau am tua un funud.

4 Y DRAFODAETH

Amser: 30-45 munud

Os yw'n bosibl trefnwch yr ystafell fel bod y seddau mewn siâp pedol gyda desg y Cadeirydd yn y blaen a baner y Cenhedloedd Unedig wedi'i harddangos arni. Dylai'r disgyblion blygu eu cerdyn rôl yn ei hanner a'i osod ar y ddesg o'u blaenau, fel bod y faner yn cael ei harddangos i'r dosbarth tra bod y llysgennad yn cael darllen y nodiadau briffio. Efallai byddwch yn dymuno chwilio ar y Rhyngrwyd er mwyn dod o hyd i ffotograff o Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i ddangos i'r disgyblion.

Dechreuwch drwy gyflwyno'r drafodaeth a gosod yr olygfa yn eich rôl fel Cadeirydd. Gofynnwch i'r disgyblion godi eu cardiau rolau os ydynt yn dymuno siarad, a dewiswch gynrychiolwyr i gael eu rhoi ar y rhestr o siaradwyr. Wedyn gwahoddwch lysgennad yr Eidal i ddarllen y cynnig ar goedd yn ffurfiol.

Galwch y llysgenhadon sydd ar y rhestr o siaradwyr fesul un i annerch y pwyllgor. Os yw'n bosibl symudwch o wlad sydd o blaid y cynnig at un sydd heb benderfynu at un sydd fwy na thebyg yn ei erbyn.

Pan fydd rhestr y siaradwyr wedi gorffen, gofynnwch am bleidlais trwy godi dwylo, yn gyntaf y rhai sydd o blaid y cynnig, wedyn y rhai sydd yn erbyn y cynnig, ac wedyn y rhai sy'n ymatal.

5 DADBRIFFIO

Amser: 15-20 munud

Gofynnwch i'r disgyblion ddod allan o'u rolau a thrafod y cwestiynau allweddol canlynol mewn grwpiau bach neu fel dosbarth, neu gosodwch nhw fel gwaith cartref.

1 Sut beth oedd y profiad o fod yn llysgennad i chi? A yw wedi newid eich canfyddiad o'r gosb eithaf?

2 Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y safbwynt sydd gan wlad ar fater megis y gosb eithaf?

3 Yn aml bydd safbwyntiau crefyddol ar faterion moesol yn amrywio nid yn unig rhwng crefyddau ond o fewn crefyddau. Allwch chi nodi unrhyw enghreifftiau o hyn yn y drafodaeth?

4 Ydych chi'n meddwl ei fod yn iawn y caiff gwledydd ddewis drostynt eu hunain a ydynt am ddefnyddio'r gosb eithaf neu beidio? Beth allai rôl y Cenhedloedd Unedig fod o ran materion megis y gosb eithaf?

Efallai bydd y pwyntiau canlynol yn eich helpu i archwilio'r cwestiynau hyn gyda'r disgyblion:

- Mae ffactorau sy'n dylanwadu ar safbwynt gwlad ar y gosb eithaf yn cynnwys:
- ystyriaethau crefyddol megis dysgeidiaeth crefydd swyddogol y wlad;
- ystyriaethau gwleidyddol megis poblogrwydd gydag etholwyr, cyfraddau troseddau, dylanwad a pherthnasoedd gyda gwledydd eraill;
- ystyriaethau economaidd megis cost cadw pobl yn y carchar yn erbyn y gost o'u dienyddio.
- Yn aml gall traddodiadau crefyddol gynnwys dysgeidiaeth ar gyfiawnder trwy ddial ac ar drugaredd neu faddeuant, er enghraifft mewn Cristnogaeth mae 'llygad am lygad' (Yr Hen Destament) yn cyferbynnu â 'throwch y boch arall' (Y Testament Newydd).
- Caiff gwledydd benderfynu ar yr hyn y maent yn ei wneud o fewn eu ffiniau eu hunain cyhyd â nad ydynt yn camddefnyddio hawliau dynol. Nodwch y caniateir y gosb eithaf o hyd o dan gyfraith ryngwladol.
- Mae cyfreithiau hawliau dynol yn esblygu o hyd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'n cymdeithas sy'n newid. Bydd sefydliadau megis y Cenhedloedd Unedig yn ceisio adeiladu consensws byd-eang ar faterion megis diddymu'r gosb eithaf. Gellid newid cyfraith hawliau dynol ei hun i adlewyrchu'r esblygiad hwn.

GWAITH PELLACH/GWAITH CARTREF

- Esboniwch i'r disgyblion fod y drafodaeth y buont yn cymryd rhan ynddi yn debyg i un sydd i ddechrau yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Hydref 2010. Gofynnwch i'r disgyblion gyflwyno eu barn ar sut gallent gymryd camau gweithredu i ymgyrchu dros ddiddymu'r gosb eithaf cyn y bleidlais hon.

CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

- Ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn cymryd rhan fel gweithredwyr o ran y gosb eithaf, gallwch chi a'ch disgyblion fynd i **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath** i gael rhagor o wybodaeth. Os bydd disgyblion yn dymuno sefydlu grŵp ieuenctid gweler tudalen 22 y llyfryn hwn a'r wybodaeth ar y DVD.

PROSIECT CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

YNGLŶN Â CHYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Mae'r Prosiect Cymryd Camau Gweithredu'n darparu'r cyfle i'r disgyblion ymchwilio i fater hawliau dynol sydd o bwys iddynt, ac wedyn i ddatblygu a chyflwyno cam ymgyrchu i geisio achosi newid. Mae wedi'i rannu'n bum sesiwn (ar y DVD) a bydd angen o leiaf chwe gwers awr i'w gwblhau. Dylech gyfeirio at Addysgu Materion Dadleuol (tudalen 8) ac Arweiniad ar ymgyrchu (isod) cyn i chi ddechrau'r sesiynau hyn.

AMCANION DYSGU

Mae'r Prosiect Cymryd Camau Gweithredu'n galluogi'r disgyblion i:

- gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fater hawliau dynol allweddol;
- datblygu sgiliau sy'n benodol i bwnc, e.e. meddwl ac ymholi beirniadol, cynllunio ac ymchwil, eiriolaeth a chynrychiolaeth, ymgyrchu;
- datblygu sgiliau allweddol eraill, e.e. TGCh, cyfathrebu, llythrennedd a gwaith tîm;
- cael profiad o ddemocratiaeth a chyfranogiad ar waith;
- teimlo eu bod wedi'u grymuso â'r hyder y gallant wneud gwahaniaeth.

TROSOLWG O'R SESIWN

Bydd yr amser sydd ei angen ar gyfer cwblhau'r Prosiect Cymryd Camau Gweithredu yn dibynnu ar y mathau o gamau gweithredu y mae'r disgyblion yn eu cymryd a'r amser sydd ar gael ar y cwricwlwm – mae pob sesiwn yn cymryd o leiaf awr. Dylech osod terfynau amser clir ar ddechrau'r prosiect, ac annog y disgyblion i ddewis cam sy'n ymarferol o fewn yr amserlen hon. Cefnogir pob sesiwn gan gynlluniau gwersi, sioeau PowerPoint a thaflenni adnoddau, sydd ar y DVD.

Sesiwn	Amser	Trosolwg
1	1 awr	**Cyflwyno'r prosiect a dewis mater (lleol neu fyd-eang)** Yn cynnwys y ffilm *Over to You* (ar DVD).
2	1 awr	**Penderfynu ar amcan a cham gweithredu**
3	1 awr	**Deall sgiliau ymchwil**
4	O leiaf 2 awr	**Gwaith annibynnol: ymchwil, paratoi a cham gweithredu**
5	1-2 awr	**Gwerthuso**

Os yw eich disgyblion yn cymryd camau gweithredu ar ran carcharor ar res yr angau neu'n cynllunio Prosiect Cymryd Camau Gweithredu, rhannwch eich syniadau ar **www.protectthehuman.com** (nodwch y telerau a'r amodau, gan gynnwys canllawiau ar Amddiffyn Plant, ar y wefan hon).

ARWEINIAD AR YMGYRCHU

Mae addysg ar gyfer hawliau dynol yn cynnig cyfle i bobl ifanc roi eu gwerthoedd a'u barnau ar waith. Mae ysgrifennu llythyrau apelio, casglu enwau ar ddeiseb, protestiadau creadigol a chamau gweithredu eraill yn symud y dysgu y tu hwnt i ddamcaniaeth a thrafodaeth ac yn cynnig cyfle am ddinasyddiaeth weithredol.

Dylai cymryd camau gweithredu bob tro ddilyn archwilio a thrafod y mater dan sylw er mwyn sicrhau eu bod yn gamau gweithredu *gwybodus*. Wrth gymryd camau gweithredu, dylid annog disgyblion i ddangos ymwybyddiaeth o ddadleuon gwahanol, gan eu gwerthuso'n feirniadol a chyfiawnhau pam mai eu barnau nhw yw'r rhai mwyaf priodol. Dylai fod cyfle i fyfyrio ar y camau gweithredu a gymerwyd ar ôl gwneud. Mae trafod, hunanwerthuso, cyflwyniadau a gweithgareddau dadbriffio eraill yn annog disgyblion i ddod yn ymwybodol o'u dysgu ac ystyried effaith eu camau gweithredu.

Uchod: Erthygl 1 y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.
Ar y dde: Gweithredwyr ifanc Amnest wrth eu gwaith.

Mae'r uned Prosiect Cymryd Camau Gweithredu llawn yn y pecyn yn cynnig strwythur ar gyfer cyflwyno gwersi ar gymryd camau gweithredu.

© Marie-Anne Ventoura

GRWPIAU IEUENCTID AMNEST RHYNGWLADOL

SEFYDLU GRŴP IEUENCTID

Os bydd eich disgyblion eisiau cymryd camau gweithredu gydag eraill yn rheolaidd, gallwch sefydlu eich grŵp ieuenctid Amnest eich hunan. Mae dros 600 o grwpiau ieuenctid Amnest yn y DU, sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion, colegau a chlybiau ieuenctid, sydd fel arfer yn cyfarfod unwaith yr wythnos. Maent yn rhan hanfodol o'n mudiad, yn hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau dynol.

Beth mae grwpiau ieuenctid Amnest yn ei wneud?

Bydd grwpiau ieuenctid yn derbyn pecyn drwy'r post bob mis sy'n llawn gwybodaeth, syniadau ymgyrchu a gwahoddiadau i fynychu digwyddiadau Amnest, megis dangosiadau ffilmiau, protestiadau ac arddangosfeydd. Yn ogystal anfonir newyddlen Camau Gweithredu Brys yr Ifanc bob mis. Mae newyddlen Camau Gweithredu Brys yn canolbwyntio ar unigolion neu ar grwpiau sydd mewn perygl o gwmpas y byd, ac yn awgrymu camau gweithredu i helpu i'w hamddiffyn.

Grwpiau ieuenctid yn galw am gyfiawnder i'r carcharor Troy Davis ar res yr angau.

Bydd grwpiau ieuenctid yn cymryd rhan drwy:

- gefnogi Amnest yn ein hymgyrchoedd byd-eang megis ymgyrch y Gosb Eithaf, Tlodi a Hawliau Dynol a Rheoli Arfau
- ysgrifennu llythyrau at garcharorion cydwybod a swyddogion llywodraeth ymhob cwr o'r byd
- trefnu digwyddiadau, gigs ac ymgyrchoedd creadigol
- cynnal gwasanaethau ysgol
- annog pobl i lofnodi deisebau
- lobïo ASau lleol
- gwneud ffilmiau am hawliau dynol a'u rhannu ar-lein
- codi arian - gweler y daflen yn y ffolder yng nghefn y pecyn hwn am syniadau
- trefnu protestiadau
- cael sylw gan y wasg leol

Yn aml gall grŵp gyflawni mwy nag y byddai'r aelodau'n gwneud fel unigolion. Bydd cymryd rhan hefyd yn rhoi'r profiad o redeg ymgyrchoedd i'r disgyblion a bydd hefyd o bosibl yn helpu datblygu sgiliau megis gweithio mewn grŵp a chyfathrebu.

Pa effaith mae grwpiau ieuenctid yn ei chael?

Mewn llawer o'r achosion mae Amnest yn gweithio arnynt bob blwyddyn, ceir peth gwelliant – atelir arteithio a rhyddheir carcharor cydwybod. Bydd pobl sydd wedi dioddef o gamdriniaeth hawliau dynol yn aml yn dweud bod pwysau rhyngwladol wedi sicrhau eu rhyddid ac achub eu bywydau.

Pa waith ar y gosb eithaf mae grwpiau ieuenctid wedi ei wneud?

Mae llawer o grwpiau ieuenctid wedi cymryd camau gweithredu dros y gosb eithaf, yn enwedig ar ran Troy Davis sydd ar res yr angau yn Georgia, UDA, a Hakamada Iwao, a dreuliodd ei 41ain flwyddyn ar res yr angau yn Japan yn 2009. Cymerodd Ysgol Ramadeg Dofr i Fechgyn yng Nghaint ran mewn ras hwyliog Santa er mwyn codi ymwybyddiaeth am achos Troy; cynhaliodd Ysgol Uwchradd Bannockburn yn Stirling brotest dawel i Troy; creodd Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth yn Hexham fersiwn deimladwy o res adnabod yr heddlu; gwisgodd Ysgol Ramadeg Aylesbury fygydau Troy Davis â negeseuon 'Rhowch y gorau i'r gosb eithaf' arnynt; ysgrifennodd Ysgol Gymunedol Stanchester yng Ngwlad yr Haf lythyr at y Gweinidog Cyfiawnder yn Japan a rhoi ffotograffau ohonynt eu hunain ar gyfosodiad anferth yn galw am ryddhau Hakamada Iwao, a oedd yn dal yr ymadrodd 'Rhyddhewch Hakamada Iwao yn Japanëeg. I weld yr erthyglau mae disgyblion wedi'u hysgrifennu am y camau gweithredu hyn a rhai eraill, ewch i **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**.

Bu grwpiau ieuenctid yn gweithredu'n greadigol dros y carcharor Hakamada Iwao sydd ar res yr angau, drwy ychwanegu lluniau ohonynt i gyfosodiad enfawr yn galw am ei ryddhau (ar y dde) a gyflwynwyd i lysgenhadaeth Japan.

Sut i sefydlu grŵp ieuenctid Amnest

- Ceisiwch ganiatâd gan y pennaeth.
- Mae'n rhaid i athro weithredu fel y cyswllt awdurdodedig, ond gall y disgyblion redeg y grŵp eu hunain.
- Ffi'r grŵp ieuenctid yw £21 y flwyddyn. Bydd rhaid i'r athro awdurdodedig godi siec a'i hanfon at Amnest Rhyngwladol.
- Mae'n rhaid trefnu lle cyfarfod rheolaidd, yn ddelfrydol gyda mynediad at y Rhyngrwyd, er nad yw hyn yn hanfodol.
- Dylid hysbysebu'r grŵp ieuenctid a'i weithgareddau. Dylech awgrymu a goruchwylio sefydlu hysbysfwrdd Amnest Rhynglwadol, gwneud cyhoeddiad mewn gwasanaethau yn yr ysgol, gosod posteri a dosbarthu taflenni.

Y cyfarfod cyntaf – syniadau

- Gallwch wahodd siaradwr o Amnest i roi sgwrs.
- Gallwch ddarparu cyflwyniad PowerPoint am Amnest, gyda ffotograffau a nodiadau i siaradwyr fel y gall disgybl neu athro ei gyflwyno (sydd ar y DVD amgaëedig).
- Dangoswch *Over to You* (sydd ar y DVD amgaëedig) fel ffordd o annog y grŵp i feddwl am hawliau dynol a thanio syniadau ymgyrchu creadigol. Mae'r ffilm yn dilyn tri grŵp ieuenctid Amnest yn cymryd camau gweithredu.
- Rhowch strwythur i'r grŵp. Bydd angen i'r disgyblion ethol cadeirydd a thrysorydd. Os yw'r grŵp yn ddigon mawr, gellid dyrannu gwahanol swyddi, e.e. codi arian, Camau Gweithredu Brys a chyhoeddusrwydd.

Cofrestru grŵp ieuenctid Amnest

A wnewch chi lenwi'r ffurflen ym mhoced y ffolder yn nghefn y pecyn hwn, neu gallwch lawrlwytho'r ffurflen ar **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**

Pa gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer grwpiau ieuenctid?

Siaradwyr mewn ysgolion Mae gennym tua 140 o siaradwyr gwirfoddol ledled y DU sydd wedi'u hyfforddi i siarad â phobl ifanc am hawliau dynol a chyflwyno addysg hawliau dynol i athrawon. Er mwyn trefnu i siaradwr roi sgwrs neu gynnal gweithdy yn eich ysgol neu grŵp ieuenctid, cysylltwch â ni ar 020 7033 1596 neu **student@amnesty.org.uk**

Grwpiau Amnest lleol Mae tua 280 o grwpiau Amnest mewn cymunedau o gwmpas y DU, sy'n cwrdd yn fisol i weithio dros hawliau dynol. Dylech wahodd cynrychiolydd o grŵp lleol i gyfarfod i gyfnewid syniadau a ffyrdd o weithio gyda'ch gilydd.

CYSWLLT

Cysylltwch â'r Tîm Addysg a Myfyrwyr i siarad â rhywun am grwpiau ieuenctid, ffoniwch 020 7033 1596 neu anfonwch neges e-bost at **student@amnesty.org.uk**

MWY O FFYRDD I GYMRYD RHAN

WYTHNOS DIOGELU DYNOLRYW

Bydd wythnos Diogelu Dynolryw yn dod cyn hir - o 16 i 22 Hydref bydd cefnogwyr Amnest o bob cwr o'r wlad yn dathlu hawliau dynol ac yn cymryd camau gweithredu i'w hamddiffyn a chodi arian.

Cychwyn arni

Archebwch eich pecyn parti sydyn ar gyfer wythnos Diogelu Dynolryw drwy ffonio 020 7033 1682 neu ar-lein ar **www.amnesty.org.uk/protect** lle gallwch gael mwy o wybodaeth ar gymryd camau gweithredu yn ystod yr wythnos.

Syniadau ar gyfer gweithredu

Ymunwch â ni drwy gynnal parti neu ddigwyddiad. Y llynedd, trefnodd grwpiau ieuenctid gyngherddau, sioeau talent, disgos ysgol, partïon pyjama a dyddiau dim gwisg ysgol. Mae'n ffordd o godi arian, cael sylw gan y wasg leol a dod o hyd i aelodau newydd ar gyfer Amnest.

Gall disgyblion ddefnyddio'r DVD yn y pecyn hwn fel rhan o'u gweithgareddau wythnos Diogelu Dynolryw – dyma rai syniadau fel man cychwyn:

- Gallwch gynnal dangosiad ffilm. Mae'n ffordd wych o recriwtio aelodau newydd i grŵp ieuenctid ac i godi ymwybyddiaeth. Rhowch wahoddiad i'r wasg leol a'ch AS.
- Defnyddiwch y DVD i ddysgu gwers – gall y disgyblion drafod hyn gyda chi a defnyddio'r cynlluniau gwersi yn y llyfryn hwn.
- Gallwch wahodd siaradwr Amnest i gynnal gwasanaeth neu wers, gan ddefnyddio'r DVD.
- Codi arian – gweler y daflen yn y pecyn hwn ar gyfer syniadau hwyliog i godi arian yn eich dangosiad ffilm.
- Trefnwch stondin recriwtio a'i wneud yn rhywbeth sy'n denu torfeydd drwy osod teledu neu liniadur a dangos y DVD.
- Dangoswch y ffilm *Over to You* mewn cyfarfod o'r grŵp ieuenctid a dechreuwch danio syniadau ar gyfer ymgyrchu creadigol.

Ymunwch yn ein cystadleuaeth codi arian Youth Raise-Off. Gallai parti wythnos Diogelu Dynolryw fod yn ddigwyddiad lansio i chi, a bydd gwobrau ar gyfer y grŵp ieuenctid ysgol sy'n codi'r mwyaf o arian drwy gydol y flwyddyn ysgol 2010/11. Dewch o hyd i ragor o wybodaeth a chofrestrwch eich ysgol ar **www.amnesty.org.uk/youthfundraise**, neu drwy ffonio 020 7033 1650.

■ Am arweiniad pellach ar gymryd camau gweithredu, cyfeiriwch at adran Prosiect Cymryd Camau Gweithredu ar y DVD neu gallwch ei lawrlwytho ar **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**

ADBORTH AR Y PECYN HWN

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn chi a'ch disgyblion am y pecyn hwn, a sut gwnaethant ei ddefnyddio yn yr ysgol neu yn y gymuned. Llenwch y cerdyn amgaeëdig a'i ddychwelyd atom, neu cwblhewch yr arolwg ar-lein ar **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**. Cewch eich cynnwys mewn cystadleuaeth tynnu raffl i ennill camera digidol. Gallwch anfon neges e-bost atom ar **student@amnesty.org.uk** hefyd.

MWY O WYBODAETH

Aelodaeth unigol

Gall unrhyw un sy'n 14 oed neu'n hŷn fod yn aelod unigol o Amnest Rhyngwladol. I ymuno ewch i **www.amnesty.org.uk/lifeanddeath**. Cewch chi gylchgrawn Amnest bob dau fis, e-gylchlythr misol a phecyn croesawu. Dyma'r ffioedd aelodaeth:

- Ieuenctid (14-18) £5 a chrys-T am ddim
- Myfyrwyr, digyflog a phensiynwyr £7.50
- Oedolion £24

TeachRights

Rhwydwaith Amnest yw TeachRights ar gyfer athrawon sydd â diddordeb mewn dod â hawliau dynol i mewn i'w hystafelloedd dosbarth. Cewch ymuno yn rhad ac am ddim. Mae aelodau'n derbyn e-gylchlythyr rheolaidd gyda dolenni at adnoddau ardderchog ar addysgu hawliau dynol a gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyrsiau. I ymuno, llenwch a dychwelwch y ffurflen yn y ffolder yng nghefn y pecyn hwn, neu cofrestrwch ar-lein ar **www.amnesty.org.uk/teachrights**

Deunyddiau addysgu

Pa bynnag bwnc neu grŵp oedran a addysgir gennych, bydd ein hadnoddau sy'n integredig â'r cwricwlwm yn eich helpu i ddod â materion hawliau dynol megis y gosb eithaf, ffoaduriaid a hawliau merched yn fyw. Maent yn cynnwys gweithgareddau addysg ynghyd â nodiadau i athrawon a chamau gweithredu i'r disgyblion eu cymryd. Rhestrir rhai ar y ffurflen archebu yn y boced yng nghefn y llyfryn hwn. I weld rhestr lawn o adnoddau, ewch i **www.amnesty.org.uk/education**

Siaradwyr Amnest

Mae dros 140 o siaradwyr Amnest ar gael i gynnal gwasanaethau, gwersi, gweithdai a sesiynau ar ôl yr ysgol ar gyfer pob oedran ar faterion hawliau dynol amserol a gwaith ymgyrchu Amnest. I wybod rhagor ffoniwch 020 7033 1596 neu anfonwch e-bost at **student@amnesty.org.uk**

Mae Amnest Rhyngwladol yn fudiad o bobl gyffredin o bob cwr o'r byd sy'n sefyll am ddynoliaeth a hawliau dynol. Ein diben yw amddiffyn unigolion lle bynnag y gwrthodir cyfiawnder, tegwch, rhyddid a'r gwir.

Amnesty International UK
The Human Rights Action Centre
17-25 New Inn Yard, London, EC2A 3EA

Ffacs: +44 (0)20 7033 1503
Ffôn: +44 (0)20 7033 1596

www.amnesty.org.uk/education